YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

DYDD Iau, 14 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: A. Lenny (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
J. Jones, Pennaeth Adfywio, Pholisi a Digidol
S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth
A. Williams, Prisiwr Cynorthwyol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Aelod y Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.40 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 23AIN IONAWR, 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 gan ei fod yn gywir.

3. CYNNIG I OSOD COFEB RYFEL I GOFIO AM BWYLIAID YN NEUADD Y DREF LLANELLI

Bu'r Aelod Cabinet dros Adnoddau yn ystyried adroddiad yn manylu ar gais Cyngor Tref Llanelli am godi Cofeb Ryfel i Gofio am Bwyliaid yn Neuadd y Dref Llanelli. Mae'r sefydliad a ofynnodd am y gofeb yn sefydliad gwirfoddol a oedd yn dymuno cofio'r Cyn-filwyr Pwylaidd a wasanaethodd yn yr Ail Ryfel Byd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i osod Cofeb Ryfel i Gofio am Bwyliaid yn Neuadd y Dref Llanelli fel y manylir yn yr adroddiad.

4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr

adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno)(Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. **Mae cyhoeddi rhenti unigol yn ddiangen ac yn drech na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth gan y byddai datgelu'n ymyrraeth ddiangen a gormodol ar fywydau preifat a theuluol yr unigolion dan sylw.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion tenantiaid presennol a chyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500.

Nododd yr Aelod Cabinet yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad a rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid a oedd yn manylu ar y rhesymau dros geisio dileu dyledion. Roedd y rhesymau yn cynnwys amgylchiadau personol.

PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**